Kirsty Williams AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-757 - P-05-765
Ein cyf/Our ref KW/01317/18

David John Rowlands AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

government.committee.business@llyw.cymru

25 Mai 2018

Annwyl David

Diolch ichi am eich e-bost dyddiedig 17 Mai ynghylch cynnal Sesiynau Addoli Crefyddol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried amrywiaeth o faterion ynghylch yr hawliau sy'n cael eu diogelu o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998, deddfwriaeth ar gydraddoldeb a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae'r materion hynny'n rhai cymhleth, ac felly am y rheswm hwnnw rydym wedi cymryd cryn amser i'w hystyried yn fanwl. Rydym yn cydnabod bod y broses hon eisoes yn cymryd amser hir. Fodd bynnag, mae'n bwysig ein bod yn cymryd gofal mawr i sicrhau ein bod yn llwyddo i gyflawni'r cydbwysedd iawn rhwng y buddiannau hynny sy'n cystadlu â'i gilydd yn y maes hwn. Mae'r broses honno'n mynd rhagddi o hyd, ond mae ar fin cael ei chwblhau. Yn anffodus, hyd nes i'r broses honno gael ei chwblhau yn llwyr, ni fyddai'n briodol imi wneud unrhyw sylwadau pellach eto yn y cam hwn o'r broses.

Ni allaf roi ateb pendant ynglŷn â phryd y byddaf yn gallu rhoi ymateb o sylwedd i'r Pwyllgor. Fodd bynnag, rwy'n cydnabod pwysigrwydd y gwaith hwn, ac am y rheswm hwnnw mae fy swyddogion yn cymryd yr amser sydd ei angen i sicrhau ein bod yn cael y cyngor iawn.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gobeithiaf fod y llythyr hwn yn egluro'r sefyllfa bresennol ac yn eich sicrhau fy mod yn ystyried y materion yr ydych wedi'u codi yn fanwl.

Yn gywir



Kirsty Williams AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education